

Chwarae Plant: Theori ac Arfer

Dydw i ddim wedi defnyddio AI

Yn yr aseiniad yma, rydw i wedi trafod:

Rhan1-

- Beth yw chwarae plant?
- Dwy fath o chwarae plant a sut gallen nhw cael ei cefnogi yn ymarfer.
- Y camau chwarae

Rhan 2-

- Beth yw chwarae hunan-gyfeiriedig a'i pwysigrwydd?
- Sut gall oedolyn cefnogi hyn?

Rhan 3-

- Beth yw arsylwadau a'i pwysigrwydd?
- Beth yw arsylwadau fideo a ffotograffaid?
- Manteision ac anfanteision arsylwadau fideo a ffotograffaid
- Sut gall y dull yma o arsylwi rhoi darlun holistig o blentyn?

Rhan 4-

- Pam mae chwarae'n bwysig wrth arsylwi ac asesu plant?
- Ydy arsylwi ar blant yn chwarae yn rhoi adlewyrchiad o ble yn nhatblygiad plant maen nhw?
- Sut gall oedolion cefnogi hyn?

Rhan 1

Mae gan pob plentyn yr hawl i chwarae yn ôl Confensiwn Cenhedlaeth Unedig ar Hawliau Plant (erthygl 31). Golyga hwn, fod gan pob plentyn yng Nghymru yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau adloniant, a chwarae hefyd (Cyngor Sir Benfro, 2023). Roedd Freidrich Froebel yn bedagog o'r Almaen. Cafodd ei eni yn 1782 a bu farw yn 1852. Chwarae plant, yw ffordd i blant cyfathrebu ag eraill, i darganfod pethau, ac i archwilio. Ffocysodd Froebel ei addysg ac ymchwil ar chwarae plant. Froebel oedd yn credu bod angen i oedolion goruwchwilio ac yn cefnogi chwarae plant, trwy darparu adnoddau addas a chyfleoedd archwilio. Mae'r theori yma'n bwysig i ymarfer gan fod plant yn cael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd yn hanfodol er mwyn cwrdd ag anghenion sylfaenol hierarchaeth Maslow.

Chwarae corfforol yw fath o chwarae, sy'n defnyddio'r corff i gyd. Enghraifft o'r chwarae yma yw 'tag'. Pan mae plentyn yn chwarae'r gem yma, maent yn datblygu a

gwella sgiliau echyddol bras oherwydd ei bod yn symyd y corff i gyd. Yn ogystal a gwella sgiliau echyddol bras, mae chwarae corfforol hefyd gallu datblygu sgiliau echyddol manwl. Enghraifft o chwarae corfforol sy'n datblygu'r sgiliau yma yw chwarae gyda toes. Mae chwarae gyda toes yn helpu datblygu'r cryfder, deheurwydd a rheolaeth sydd angen er mwyn cwblhau tasgau dyddiol yn annibynnol, er enghraifft dal pensil, siswrn, botymau a sip cot (Budiarti, 2025). Mae chwarae corfforol yn darparu cyfleoedd i blant datblygu'n holistig, oherwydd mae chwarae corfforol hefyd yn datblygu sgiliau cymdeithasu. Wrth i blant chwarae ag eraill, maen nhw'n cael y cyfleoedd i ehangu geirfa.

Gall chwarae corfforol cael ei hybu mewn ymarfer, trwy cael amgylchedd dysgu allanol, neu buarth chwarae. Bydd cymryd y chwarae yma tu fas, yn lleihau'r risg o blant rhedeg mewn i'w gilydd a cael anafiadau. Nid oes angen i'r chwarae yma fod tu allan chwaith. Gall chwarae corfforol digwydd tu fewn hefyd. Trwy cynnal digon o gyfleoedd i blant datblygu sgiliau echyddol manwl, gall ymarferwyr darparu adnoddau o amgylch yr ystafell dysgu, fel toes ar fwrdd er mwyn hybu datblygiad sgiliau echyddol manwl.

Math arall o chwarae yw chwarae cymdeithasol. Enghraifft o chwarae cymdeithasol yn ymarfer, yw chwarae rôl. Pan fydd plentyn yn chwarae rôl, maent yn datblygu geirfa newydd, ac yn dysgu sut i chwarae gyda plant arall. Mae chwarae cymdeithasol yn helpu plentyn i ddatblygu'n holistig, wrth gwella sgiliau cyfathrebu ag eraill, dysgu plant sut i wrando ar eraill, a hefyd yn dysgu plant sut i gydweithio ag eraill (PlayWales, 2017). Gall chwarae cymdeithasol cael ei cefnogi mewn ymarfer trwy cael ardal yn yr ystafell dysgu, lle gall y plant fynd at er mwyn 'chwarae rôl'.

Mae chwech cam chwarae. Pan fydd plentyn yn datblygu, bydden nhw'n chwarae gwahanol. O genedigaeth hyd at dair fis oed, mae plant yn chwarae heb gymorth. Yn ystod yr amser yma, mae plant yn dysgu am ei hunain, am eu breichiau, dwylo, bysedd, coesau a thraed, a sut maen nhw'n symyd (Pathways, dim dyddiad). Er mwyn chwarae, maent yn symyd eu corff llawer ac yn dysgu sut i rheoli rhannau'r corff.

Yr ail cam chwarae, sy'n digwydd o dair fis oed i dwy flwydd oed yw chwarae unigol. Chwarae unigol yw pryd mae plentyn yn chwarae ben ei hunain. Does dim diddordeb gyda plant yr oedran yma chwarae ag eraill eto.

Y trydydd cam chwarae yw chwarae gwyliwr. Pan fydd plentyn yn cyrraedd y cam yma yn ei datblygiad chwarae, bydden nhw'n gwylio plant arall yn chwarae, ond does dim diddordeb gyda nhw i chwarae ag eraill. Fel arfer, digwydda'r cam yma pan fydd plentyn yn dwy flwydd oed.

Pan fydd plentyn yn datblygu heibio'r cam yma, bydden nhw'n chwarae'n baralel. Golyga hwn fod plant yn chwarae yn baralel i blentyn arall yn agos, ond ni fydden nhw'n chwarae gyda nhw. Digwydda'r cam yma chwarae pan fydd plentyn yn dwy flwydd oed ac yn hyn.

Unwaith mae plentyn yn dechrau ysgol am dair mlwydd oed, bydden nhw'n dechrau chwarae ag eraill. Chwarae cysylltiedig yw pryd mae plentyn yn dechrau ymateb i blant arall pan maent yn chwarae. Yn ystod y cam yma, does dim llawer o gyfathrebiad rhwng dau o blant. Enghraifft o chwarae cysylltiedig yw chwarae mewn ardal allanol ysgol, ar feiciau. Bydd dau plentyn yn chwarae ar y beiciau ar yr un pryd, ond yn gwneud peth ei hunain. Mae'r cam yma'n para nes iddynt droi'n bedair mlwydd oed.

Ar ôl chwarae cysylltiedig, mae plant yn datblygu i chwarae cydweithredol. Yn y cam yma, mae plant yn dangos diddordeb ym mhlant eraill, ac yn dechrau chwarae gyda nhw. Pan fydd plentyn yn cyrraedd y cam yma o chwarae, bydden nhw'n dangos diddordeb yn y plant arall a'r gweithgaredd hefyd.

Rhan 2-

Chwarae hunan-gyfeiriedig yw'r cysyniad o galluogi plant i chwarae heb strwythyr neu cynllun yn annibynnol heb oedolyn (Play Adventures, 2019). Caiff y chwarae yma ei arwain gan y plentyn, a does dim nod penodol mae angen i'r plant cyrraedd. Creda Brūner bod angen cymorth ar blant wrth oedolyn pan maent yn dechrau dysgu rhywbeth newydd, a dros amser, bydd y plentyn yn dibynnu llai ar yr oedolyn wrth iddynt gwneud y weithgaredd yn fwy. Yn debyg i theori Brūner, creda Vygostky bod plant yn dilyn esiampl oedolyn pan maent yn gwneud rhywbeth, ac wrth i amser mynd heibio, bydd y plant yn dilyn yr oedolyn yn llai, ac yn gwneud y weithgaredd yn annibynnol (The Open University, dim dyddiad).

Trwy chwarae hunan-gyfeiriedig, mae plant yn dewis beth maen nhw'n chwarae gyda, a phwy. Mae hwn yn galluogi plant i ddilyn ei diddordebau ac archwilio syniadau yn annibynnol ac yn rhydd (The Montessori School of the Burkschires, 2024). Yn chwarae hunan-gyfeiriedig, mae plant yn datblygu'n holistig ac yn gyfannol. Yn ôl y Steiner Connection (2022), mae chwarae-hunan-gyfeiriedig yn lwybr naturiol tuag at gyflawni nodau chwarae a mae hyn yn helpu cyfrannu at datblygiad holistig y plant. Hefyd, dywed y Steiner Connection, bod plant yn cael eu ysbrydoli gan rhywbeth ac yn cymryd diddordeb ynddi, ac yn chwarae gydag ef. Gall hwn fod yn toes, cardfwrdd neu hyd yn oed deilen.

Mae'r chwarae yma'n bwysig i ddatblygaid plant oherwydd maent yn meithrin sgiliau cymdeithasu da (Edmentum, 2024). Hefyd, mae chwarae hunan-gyfeiriedig yn helpu plant i ddysgu gwydnwch ac i ddyfalbarhau. Os nad yw plentyn gallu gwneud rhywbeth o fewn y chwarae, bydd llawer o gyfle iddyn nhw trio eto ac i ddyfalbarhau nes iddynt gwneud rhywbeth.

Yn ystod y chwarae yma, rôl yr oedolyn yw i orywchwylio gweithgaredd yn unig. Caiff hwn ei cadarnhau er mwyn galluogi plant i arbrofi gyda pethau trwy hefyd gweithio ar annibyniaeth a sgiliau cymdeithasu a phlant eraill. Er mwyn i chwarae hunan-

gyfeiriedig i lwyddio, mae angen i oedolion camu yn ôl er mwyn cefnogi a hwyluso datblygiad plant. Pan fydd oedolion yn rheoli, arwain neu'n cymryd dros chwarae plant, maent yn sathru prif egwyddorion chwarae hunan-gyfeiriedig. Pan fydd plentyn yn colli'r ryddid i archwilio a darganfod yn agored, mae'r profiad yn colli ystyr (Rymanowicz, 2015). Gall presenoldeb oedolyn effeithio ar sut mae plant yn ymddwyn pan maent yn cael ei arsylwi.

Er mwyn cefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig, gall oedolion sicrhau bod yr adnoddau cywir wedi ei rhoi allan. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod y plant yn gallu mynd ati a llwyddo chwarae heb cymorth oedolyn, an annibynnol. Hefyd, gall oedolion cefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig trwy meithrin ac adeiladu perthnasau da gyda plant. Bydd hwn yn cynyddu'r siawns o blant yn gwahodd yr oedolyn i chwarae. Meddylia hyn bod y plant yn chwarae yn annibynnol, ond wrth ymyl oedolyn. Mewn chwarae hunan-gyfeiriedig, mae hwn yn meddwl bod y plentyn yn chwarae gyda rhywbeth ben ei hunain, ond yng nghwmni'r oedolyn, fydd yn gwneud rhywbeth gwahanol i'r plentyn.

Ffordd arall gall oedolyn cefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig yw i ddatrys gwrthdaro. Os yw plentyn yn chwarae gyda blociau, a mae plentyn arall yn dwyn nhw oddi wrth y plentyn cyntaf, gall hwn achosi gwrthdaro. Rôl yr oedolyn yn y sefyllfa yma, fydd i ddatrys y gwrthdaro a dod o hyd i ffordd i gadw'r dwy blentyn yn hapus. Yna, bydd yr oedolyn yn mynd nôl i wneud beth oeddent yn gwneud o'r blaen. Yn debyg i Piaget (1962), creda Montessori bod yr amgylchedd mae plant yn chwarae yn cyfrannu at addysg ddigymell plant. Er mwyn cefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig, mae angen sicrhau cyfeloedd i blant archwilio, darganfod a chreu pethau yn yr amgylchedd. Mae amgylchedd galluogol yn cadarnhau bod dim angen i oedolion torri ar draws y chwarae, felly bydd y plant gallu gwella a datblygu ei sgiliau'n fwy dwys. Hefyd, mae amgylchedd cadarnhaol yn galluogi plant i chwarae yn drefnus ac yn gywir, heb angen i oedolyn camu mewn.

Rhan 3-

Un o'r rôlau sydd gallu bod gan oedolyn pan fydd plant yn chwarae yw arsylwi. Arsylwi yw lle mae oedolyn yn gwylio plentyn yn gwneud rhywbeth. Caiff arsylwi ei ddiffinio fel y broses o wyllo plant yn ein gofal, gwrando arnynt a chadw cofnod o'r hyn rydym yn gweld a chlywed (Cyngor Sussex Gorllewin, 2015). Gall oedolyn arsylwi ar blentyn yn chwarae, neu arsylwi arnynt yn gwneud heriau fel clymu esgidiau, gwisgo siwmpwr ac yn y blaen. Mae oedolion yn arsylwi ar blant hyd yn naturiol pob tro maent yn gofalu amdanynt (Gronlund G, James M, 2025).

Mae arsylwi ar blant yn bwysig i ymarfer oherwydd mae'n ffordd o asesu plant ar gyfer pethau gwahanol. Enghraifft o arsylwi mewn ysgol yw, arsylwi ar blentyn yn yr ardal chwarae rôl er mwyn asesu sgiliau cyfathrebu. O fewn yr arsylwad yma, bydd yr oedolyn yn cymryd cam yn ôl a byddant yn gwylio a gwrando ar sut mae plentyn

yn chwarae gyda phlant arall. Mae arsylwi yn helpu oedolion i weld sut mae plant gallu ymddwyn tu fas i bresenoldeb a rheolaeth oedolyn. Modd bynnag, mae rhai plant gallu newid y ffordd maent yn ymddwyn pan maen nhw'n ymwybodol eu bod yn cael ei arsylwi. Mae'n bosib fod arsylwadau gallu helpu datrys gwrthdaro rhwng ddau o blant. Os nad yw dau plentyn yn dod ymlaen, gall arsylwi arnyn nhw'n gwneud gweithgaredd gyda'i gilydd yn helpu'r oedolyn i weld ble yn gwmws mae'r gwrthdaro'n digwydd a sut. O hyn, gall oedolion trafod gyda'i gilydd, y ffordd gorau i fynd ymlaen, gan osgoi'r gwrthdaro cymaint a phosib.

Pan arsylwi plant, mae'n bwysig ystyried chwarae o berspectif y plentyn oherwydd mae perspectif plentyn o chwarae, nid yn unig yn ffocysi ar y peth ei hunain, ond yn rhoi mewnbwn i ansawdd y chwarae hefyd, sydd yn bwysig i ddysgu (Karen McInnes, Justine Howard, Kevin Crowley & Gareth Miles (2013).

Arsylwadau fideo a ffotograffig yn chwarae plant, yw dull o arsylwi gan defnyddio rhywbeth i recordio plentyn yn chwarae. Trwy recordio chwarae plant, mae'n bosib i ymarferwyr cadw pellter, sy'n gallu lleihau'r siawns o'r plentyn dod yn ymwybodol ei fod yn cael ei wyllo'n chwarae, a gyda tro, newid y ffordd maent yn ymddwyn. Gall hyn arwain at ffug canlyniadau ac anhawster wrth didoli chwarae a sefyllfaoedd o berspectif y plentyn. Ni fydd hyn yn cael effaith da ar canlyniadau's arsylwad.

Peth negyddol arall am defnyddio fideos a ffotograffiaith am arsylwadau yw'r ffaith bod sain gallu bod yn broblem. Os caiff arsylwad yma ei wneud mewn ystafell dosbarth, bydd lawer o sŵn, a mae'n gallu bod yn anodd clywed popeth sydd yn cael ei dweud yn y fideo. Oherwydd mae plant gallu ymddwyn yn wahanol yn ystod arsylwad, mae'n bosib fod yr oedolyn yn arsylwi o bellter, felly'n colli'r sain.

Ar y llaw arall, mae arsylwadau fideo a ffotograffig gallu bod yn ffordd da o arsylwi greithgareddau grŵp. Mae gan lun yr allu i ddal deinamig grŵp, iaith y corff a hyd yn oed mynegiant gwynebol (Twinkl, dim dyddiad). Trwy gwneud arsylwadau fideo a ffotograffig, mae'n bosib i ailwyllo fideos ac edrych ar luniau mwy nag unwaith, felly mae'r ffordd yma o arsylwi gallu bod yn dda ar gyfer asesu plant. Mantis arall arsylwadau fideo a ffotograffiaidd yw, bod hi'n bosib ailedrych arnyn nhw sawl gwaith. Mae hwn yn rhoi's posibilrwydd i oedolion gweld pethau mewn sawl ffordd gwahanol, a gweld darlun cyfan o sut mae plentyn yn cafathrebu ag eraill, yn gweithio gyda nhw a sut maent yn chwarae.

Mae'n bosib fod arsylwadau fideo a ffotograffiaidd yn rhoi darlun holistig o'r plentyn sydd yn cael ei arsylwi. Gall oedolion ailedrych ar yr hyn sydd wedi ei cymryd, a chadw portffolio digidol, sy'n gwneud pethau'n haws i oedolion asesu cynydd plentyn mewn sawl maes. Trwy arsylwi ar blant, mae'n galluogi oedolion i gynllunio'n addas yn ganolog i diddordebau a galluoedd plant. Wrth arsylwi gyda fideos a ffotograffiaidd, mae'n bosib darganfod unrhyw anhawsteron sy'n gallu codi yn ôl datblygiad plentyn.

Gall arsylwadau fideo a ffotograffaid darparu darlun holistig o blentyn trwy llunio darun o sut mae plentyn yn datblygu dros amser mewn sefyllfaoedd a thrwy gwenud gweithgareddau gwahanol. Er enghraifft, mae'r arsylwadau yma'n galluogi oedolion i weld sut bydd plentyn yn cyfathrebu tu fewn i ystafell dysgu, a hefyd tu fas i'r amgylchedd dysgu. Er mwyn darparu darlun holistig o blentyn, mae'n bwysig fod arsylwadau'n cael ei gwneud yn reolaidd ac yn gyson. Bydd gwneud arsylwadau'n gyson ac yn reolaidd yn helpu casglu tystiolaeth ar gyfer portffolio plentyn.

Rhan 4-

Trwy cynnal arsylwadau ac asesu rheolaidd, mae'n bwysig ystyried chwarae plentyn. Trwy arsylwi chwarae plant, mae'n bosib gweld sut mae plant yn defnyddio sawl sgil ym mhob maes datblygiad. Trwy chwarae, mae plant gallu datblygu sgiliau echddygol manwl trwy chwarae yn yr ardal creadigol, neu sgiliau echddygol bras yn chwarae pêl droed. Hefyd, gall plentyn datblygu sgiliau emosiynol trwy cyfathrebu gydag eraill, ac wrth iddynt datrys gwrthdaro yn yr ardal chwarae rôl neu pan maent yn chwarae 'tag' ar y buarth chwarae. Trwy arsylwi ar blentyn yn chwarae, mae'n bosib llunio darlun cryf o ba cam chwarae mae plentyn wedi cyrraedd, neu sut mae ei datblygiad corfforol, emosiynol, gwybyddol a dychmygol yn datblygu dros tro. Er mwyn cefnogi arsylwadau plant pan mae'n dod i chwarae, mae'n bwysig i oedolion cymryd cam yn ôl a gwylio er mwyn llunio darlun well o sut mae plentyn yn ymddwyn heb fod dan rheolaeth oedolyn. Gall oedolion sicrhau hyn trwy mynychu arsylwadau tu fas i bresenoldeb plentyn, o bellter.

Gall arsylwadau helpu oedolion i ddeall ble yn nhatblygiad plant maen nhw. Gall oedolion elwa o hwn, fel ei bod yn gallu cynllunio'n addas ar gyfer galluoedd gwahanol pob plentyn yn y dosbarth. Wrth mynychu arsylwadau yn ystod chwarae plant, mae'n galluogi oedolion i gynllunio ardaloedd chwarae o fewn yr amgylchedd dysgu sy'n cyfateb a'i diddordebau nhw. Er enghraifft, os yw nifer o blant dangos diddordeb mewn creu sioe gyda teganau, mae'n bosib i oedolion addasu pethau o fewn yr amgylchedd fel bod y plant gallu creu sioe mewn sioe pypedau. Gall hyn arwain at y plant i helpu creu theatr er mwyn iddynt creu'r sioeau yma. Wrth i oedolyn cynllunio gweithgaredd chwarae, mae'n bwysig iddynt ystyried os bydd plant yn gweld y weithgaredd fel cyfle hwyl, neu ddim (Howard a McInnes, 2012).

Er mwyn cefnogi arsylwadau ac asesiadau da, mae'n bwysig i oedolion sicrhau bod dealltwriaeth da ganddyn nhw o ddatblygiad plant. Bydd hwn yn cadarnhau bod yr oedlyn sydd yn cynnal yr arsylwad neu asesiad, yn gwybod yn gwmws ble yn nhatblygiad plant maen nhw, a sut i gynllunio'n addas i helpu plentyn i ddatblygu'n holistig.

Bydd plentyn sydd a llawer o diddordeb yn yr ardal adeiladu gyda blociau yn elwa o cael arsylwadau ei gynnal pan fyddent yn y flociau, yn wahanol i'r ardal lliwio,

oherwydd bydd y plentyn yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn fwy agored i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt. Os caiff y plentyn yma ei arsylwi pan maent yn yr ardal lliwio, mae'n bosib fydd y plentyn ddim yn cael yr hyder i fod ei hunain, felly bydd yr arsylwad ddim yn dangos sut mae'r plentyn yn defnyddio'i sgiliau fel cyfathrebu'n iawn, fel bydden nhw os mae'n nhw'n meddwl ei fod yn chwarae. Bydd cynnal arsylwadau pryd mae plentyn yn chwarae hefyd yn darparu cyfleoedd iddynt i wella llesiant. Er mwyn llunio darlun gwell o'r plentyn, mae'n bosib addasu gweithgareddau er mwyn hwyluso diddordebau'r plentyn. Er enghraifft, os yw plentyn yn hoff iawn o anifeiliaid, mae'n bosib addasu gweithgaredd lliwio, trwy cael y plentyn i fwynhau'r gweithgaredd yn fwy, ac felly yn tro, bydd llesiant y plentyn yn well, bydden nhw'n mwynhau'r gweithgaredd yn fwy a bydd hynny wedyn yn sicrhau bod canlyniadau arsylwadau'n well ac yn creu darlun mwy addas o'r plentyn.

Rhestr Cyfeirnod

Budiarti E (2025), *The Benefits of Play Dough in Early Years*, Ar gael ar:

<https://parentingchaos.com/play-dough-developmental-benefits-early-childhood/>

(Wedi darllen 21 Chwefror 2025).

Cygnor Sir Benfro (2023), *Chwarae Sir Benfro*, Ar gael ar: [https://www.sir-](https://www.sir-benfro.gov.uk/chwarae-sir-benfro/beth-yw-chwarae)

[benfro.gov.uk/chwarae-sir-benfro/beth-yw-chwarae](https://www.sir-benfro.gov.uk/chwarae-sir-benfro/beth-yw-chwarae) (Wedi darllen ar 17 Chwefror 2025).

Cyngor Sussex Gorllewin (2015), *Effective Practice: Observation, Assessment and Planning*. Ar gael ar:

https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (Wedi

darllen 22 Chwefror 2025).

Edmentum (2024), *How Self Directed Play Helps Your Child Learn*, Ar gael ar:

<https://www.edmentum.com/intl/articles/self-directed-play/#:~:text=Self%2Ddirected%20play%20fosters%20strong%20social%20skills&text=Especially%20in%20the%20case%20of,and%20building%20effective%20social%20skills>. (Wedi darllen ar 21 Chwefror 2025).

Gronlund, G a James, M (2025), *Focused observations: How to observe young children for assessment and curriculum planning* (3) 2, Redleaf Press.

Howard a McInnes (2012), 'The Impact of Children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being' (Wedi darllen 23 Chwefror 2025).

Karen McInnes, Justine Howard, Kevin Crowley & Gareth Miles (2013)

The nature of adult-child interaction in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour, *European Early Childhood Education Research Journal*, 21:2, 268-282, DOI:

10.1080/1350293X.2013.789194

Pathways (dim dyddiad), *How kids Learn to Play: 6 Stages of Play Development*, Ar gael ar: <https://pathways.org/kids-learn-play-6-stages-play-development> (Wedi darllen 21 Chwefror 2025).

Piaget J (1962), *Play, dreams, and imitation in childhood*. Efrog Newydd: Norton.

Play Adventures (2019), *Self-Directed Play*, Ar gael ar:

<https://www.playadventures.org/self-directed-play#:~:text=Self%20Directed%20Play%20is%20the,intent%20of%20their%20play%E2%80%8B> (Wedi darllen 21 Chwefror 2025).

PlayWales (2017), *Playing and Hanging Out*, Ar gael ar:

<http://www.playwales.org.uk/eng/playinghangingout> (Wedi darllen 21 Chwefror 2025).

Rymanowicz K, (2015), *The Power of Play- Part 5: Adult Roles in Child's Play*, Ar gael ar:

https://www.canr.msu.edu/news/the_power_of_play_part_5_adult_roles_in_childs_play (Wedi darllen ar 21 Chwefror 2025).

Twinkl (dim dyddiad), *Early Years Observation Methods*, Ar gael ar:

<https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/early-years-observation-methods> (Wedi darllen 23 Chwefror 2025).

The Montessori School of the Burkschires (2024), *Why Encourage Self-Directed Play?* Ar gael ar: <https://www.berkshiremontessori.org/msb-blog/self-directed-play> (Wedi darllen ar 21 Chwefror 2025).

The Open University (dim dyddiad), *Vygostkian principles on the ZPD and scaffolding*, Ar gael ar:

[https://www.open.edu/openlearncreate/8f/0d/8f0dad31356b941f01191a927e556a703ca8c89?response-content-disposition=inline%3Bfilename%3D%22Vygotskian principles on the ZPD and scaffolding.pdf%22&response-content-type=application%2Fpdf&Expires=1740193500&Signature=rKew0Sd~9ILJNQKCMypul-DCNCrEXGvzpuc2USEyPgQOdU63IADTV9q2xp0WgTQongYULc6Ly5XG4pdCRGI8gtNIgjduVitsdk~2zPjsbP9OE27ApidB2JH1AnNtWfRT-yAkE9z31VNIzzKKSbgRaLMQ38U7YAtn~qePrkLVr41ZrhBu1MWTJcYEOxli~4XOKms7Q16sUHoFnkoMYqhoDj2v1F4-YW8pZai-j3YSRS2EbasBfMooH7MWSHzOoX4J~VK3e8sHe2snF6MjfhUSUQWfoTNNqDUsp0X~lm~lzLVT2WJ562kk4Zo6kM64Wi1wzamuFDzplHSEPuu9wZovg_&Key-Pair-Id=K19YM1UI0NPZI1](https://www.open.edu/openlearncreate/8f/0d/8f0dad31356b941f01191a927e556a703ca8c89?response-content-disposition=inline%3Bfilename%3D%22Vygotskian_principles_on_the_ZPD_and_scaffolding.pdf%22&response-content-type=application%2Fpdf&Expires=1740193500&Signature=rKew0Sd~9ILJNQKCMypul-DCNCrEXGvzpuc2USEyPgQOdU63IADTV9q2xp0WgTQongYULc6Ly5XG4pdCRGI8gtNIgjduVitsdk~2zPjsbP9OE27ApidB2JH1AnNtWfRT-yAkE9z31VNIzzKKSbgRaLMQ38U7YAtn~qePrkLVr41ZrhBu1MWTJcYEOxli~4XOKms7Q16sUHoFnkoMYqhoDj2v1F4-YW8pZai-j3YSRS2EbasBfMooH7MWSHzOoX4J~VK3e8sHe2snF6MjfhUSUQWfoTNNqDUsp0X~lm~lzLVT2WJ562kk4Zo6kM64Wi1wzamuFDzplHSEPuu9wZovg_&Key-Pair-Id=K19YM1UI0NPZI1) (Wedi darllen ar 21 Chwefror 2025).

The Steiner Connection (2022), *Self Directed Play in the Waldorf Kindergarten*, Ar gael ar: <https://thesteinerconnection.com/2022/07/01/self-directed-play/> (Wedi darllen ar 21 Chwefror 2025).